

**PWYLLGOR CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL
 BRO MORGANNWG A CHAERDYDD
 Cofnodion 6 Mawrth 2014**

Yn bresennol:

Y Cyngorydd Bronwen Brooks – CBM
 Mike Ingram – CBM
 Jane Thomas – Caerdydd
 Frances Beecher – Cymorth
 Ceri Meloy – Cymorth
 Helen Jones – Cartrefi Cymunedol
 Cymru (CHC)
 Mark Sheridan – CHC
 Phil Richardson – CHC

Sian Harrop-Griffiths – Bwrdd Iechyd
 Prifysgol Caerdydd a'r Fro
 Donna Lemin – Llywodraeth Cymru
 Chris Maggs (CrM) – BCCCP
 Neil Sutcliffe – Caerdydd
 Pam Toms – CBM
 Sarah Capstick – Cydlynnydd Datblygu
 Rhanbarthol (cofnodion)

Ymddiheuriadau:

Y Cyngorydd Susan Elsmore - Caerdydd
 Sarah McGill – Caerdydd
 Peter Thomas-Greenhill – Gwasanaeth Prawf Cymru
 Dr Sian Griffiths – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Eitem agenda	Gweithredu
<p>1. Croeso, cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datgan buddiannau</p> <p>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, gan esbonio nad oes Cadeirydd gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (y Pwyllgor) ers cyfarfod mis Mawrth yn dilyn ad-drefnu aelodau Cabinet Cyngor Caerdydd. O ganlyniad, caiff eitem agenda 4 ei symud i'r ail eitem.</p> <p>Cyflwynodd yr aelodau eu hunain i'r lleill</p> <p>Cafwyd a nodwyd ymddiheuriadau. Nid oedd yn bosibl i'r Cyngorydd Elsmore fod yn bresennol oherwydd ymrwymiad blaenorol, a bu'n rhaid i Sarah McGill fynychu cyfarfod y dylai JT wedi bod yn bresennol ynddo hefyd. Holodd FB ynghylch parhad o ran cynrychiolwyr Caerdydd yn mynychu'r cyfarfodydd. Dywedodd JT y caiff y parhad ei gynnal naill ai gan Sarah McGill neu hithau'n mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.</p> <p>Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.</p>	
<p>4. Trafodaeth ac ethol Cadeirydd newydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (y Pwyllgor)</p> <p>Cyflwynodd FB y papur a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod a oedd yn dangos</p>	

<p>dyletswyddau'r Cadeirydd o Ganllawiau y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl (Mehefin 2013). Ni wnaed unrhyw sylwadau ar gynnwys y papur na rôl y Cadeirydd.</p> <p>MS – holodd a oedd enwebiad gan Gaerdydd. JT – Nid oes enwebiad gan Gaerdydd ar hyn o bryd. Nid yw'r Cynghorydd Elsmore am fod yn gadeirydd ar yr adeg hon, wrth iddi ymgynefino â'i rôl yn y Cabinet, gan fod ganddi bortffolio mawr i ddysgu amdano. MS – holodd a oedd enwebiad gan Fro Morgannwg. BB – Yn fodlon bod yn Gadeirydd am y tro er mwyn sicrhau parhad.</p> <p>Cymeradwywyd penodiad y Cynghorydd Brooks yn Gadeirydd newydd yn unfrydol.</p>	
<p>2. Cofnodion a Materion sy'n Codi</p> <p>Nid oedd unrhyw ddiwygiadau i Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2014.</p> <p>Cymeradwywyd y cofnodion.</p> <p>Roedd dal angen i SC gysylltu â FB ynghylch sefydlu grŵp i ddatblygu'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol ar gyfer 2015/18. Dylid fod wedi cwblhau hyn yn ddiweddarach yr wythnos hon. Ni chytunwyd ar amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol hyd yma gan nad oedd SC wedi cynnal trafodaeth â FB, felly ni chafodd ei gynnwys ar gynllun gwaith 2014/15 hyd yma.</p> <p>Wrthi'n ystyried llunio fersiwn hawdd i'w ddarllen o'r Fframwaith Cyfranogi a Chynnwys. Caiff ei ddsbarthu i'r Pwyllgor ar ôl ei lunio.</p> <p>Gwahoddwyd Bethan ac Angela i'r cyfarfod hwn i roi'r newyddion diweddaraf am broses Cyrchu Strategol Llety Pobl Ifanc, ond nid oedd ganddynt unrhyw beth newydd i'w ychwanegu. Estynnwyd gwahoddiad iddynt fynychu cyfarfod Gorffennaf.</p> <p>Roedd CM wedi codi'r mater nad oedd Caerdydd wedi rhoi unrhyw wybodaeth am y contractau ers y cyfarfod diwethaf. Ni chafwyd unrhyw newyddion o ran amserlenni ychwaith.</p> <p>NS – nid yw'r amserlen wedi'i phennu hyd yma. Yn aros i waith cyfreithiol gael ei gwblhau, mae ef wedi cwblhau'r holl waith y gofynnwyd iddo ei wneud.</p> <p>CM – os nad yw amserlen wedi'i phennu, mae Fforwm y Darparwr Rhanbarthol wedi gofyn i'r cynrychiolwyr gyfeirio'r mater i lefel uwch. JT – bydd Caerdydd yn rhoi'r amserlenni i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol erbyn diwedd yr wythnos hon. BB – a yw hynny'n ymrwymiad pendant y rhoddir amserlenni? JT – Rwy'n cadarnhau hynny. DL – A yw'r un materion yn berthnasol i bob contract neu a ydynt yn wahanol i bob darparwr? NS – yr un materion o ran pob contract, y prif fater yw ychwanegu cyfnod optio allan o dri mis i ddarparwyr o fewn y contract.</p> <p>Cam Gweithredu</p>	<p>SC</p>

<p>SC i gysylltu â FB ynglŷn â sefydlu grŵp i ddatblygu'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol ar gyfer 2015/18.</p> <p>Caerdydd i roi amserlen i'r Pwyllgor ar gyfer dyfarnu contractau i ddarparwyr erbyn 9 Mai 2014.</p>	<p>JT / NS</p>
<p>3. Adroddiad y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol i'r Pwyllgor, gan gynnwys adroddiad ar y cynllun gwaith a hysbysiadau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Dosbarthwyd adroddiad a chynllun gwaith y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol cyn y cyfarfod. Holodd SC ynghylch yr oedi o ran Alldro yn sgîl gweithdrefnau ariannol yr Awdurdodau Lleol. Gofynnodd DL am ragor o wybodaeth am yr oedi drwy e-bost.</p> <p>Mae'r Awdurdodau Lleol wrthi'n paratoi'r adroddiadau Alldro ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr eitemau a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, ond nid y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gyhoeddwyd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Gan hynny mae'r terfyn amser ar gyfer gweithredu wedi newid o adroddiad y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol i lythyr y Gweinidogion ym mis Hydref. Ychwanegwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel eitem ychwanegol dan eitem agenda 9.</p> <p>Ymddiheurodd DL nad oedd gwybodaeth Llywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a ddisbarthwyd cyn y cyfarfod. Roedd hynny oherwydd cyfarfod â'r Gweinidog yr wythnos ddiwethaf a fyddai'n effeithio ar y mater dan sylw. Dosbarthwyd y papur gan DL. Ychwanegodd DL fod y Gweinidog yn awyddus i ddeall a gallu dangos sut y mae arian Cefnogi Pobl yn helpu ar draws meysydd ariannu eraill, bod yr arian yn cael ei wario mewn ffordd briodol a bod unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani yn gywir. Bydd system werthuso ac archwilio barhaus yn dechrau'n fuan, gyda thîm yn mynd i mewn i'r ddau Awdurdod Lleol i gael gwell dealltwriaeth o sut y defnyddir y cyllid o gymharu â'r wybodaeth a ddarparwyd ar y cynllun gwario. Cynhelir archwiliadau pellach fel rhan o'r rhaglen werthuso ac ymchwil barhaus.</p> <p>SC – Cododd y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol fater ynghylch cysondeb a oedd yn ymwneud â'r adolygiad Pontio, gyda rhai pobl yn cael y cwestiynau ymlaen llaw, tra bod eraill heb. Mae Stephen wedi ymdrin â hyn.</p> <p>FB – Wedi cael cyfweiliad â Miller Research, ni roddwyd y cwestiynau ymlaen llaw.</p> <p>CrM – Bydd y gwaith ymchwil yn bwysig iawn, gan mai prin yw'r dystiolaeth i gadarnhau'r honiadau ynghylch manteision y rhaglen Cefnogi Pobl. Mae gan y Gweinidog ddiddordeb mewn gwerthoedd, nid dim ond rhai ariannol, ond gwerth ychwanegol hefyd ar draws meysydd gwariant lluosog gan gynnwys lechyd a Chyfiawnder.</p> <p>MS – Mae'r Bil Rhentu Cartrefi yn peri pryder i Gymorth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru, ond nid yw wedi'i gynnwys yn y newyddion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>DL – Cytunodd i anfon papur i'r Pwyllgor am y Bil Rhentu Cartrefi drwy'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol.</p> <p>Camau Gweithredu Caiff adroddiadau Alldro ar gyfer y cyfnod Ionawr – Mawrth 2014 eu</p>	<p>SC</p>

<p>cyhoeddi i'w cymeradwyo cyn gynted ag y bônt ar gael.</p> <p>SC i roi gwybodaeth i DL drwy e-bost am y problemau o ran terfynau amser.</p> <p>DL i roi'r newyddion diweddaraf am y Bil Rhentu Cartrefi i'w ddsbarthu i'r Pwyllgor.</p>	<p>SC</p> <p>DL</p>
<p>5. Y newyddion diweddaraf o ran Darparwyr / Landlordiaid</p> <p>FB – Mae'r Fforwm Darparwyr Rhanbarthol wedi gofyn i godi mater go bwysig yn y cyfarfod hwn. Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr gyflwyno pryderon y darparwyr ynghylch y diffyg cyfathrebu gan Gaerdydd. Y farn yw nad yw'r Pwyllgor yn cael ei gynnwys ymlaen llaw. Mae tri maes sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd neu sy'n cael eu hystyried:</p> <ol style="list-style-type: none"> Gwasanaethau Cam-drin Domestig, sy'n cael eu hystyried gan CAADA. Pryderon ynghylch diffyg gwybodaeth am hyn i'r Pwyllgor. Mater arall sy'n peri pryder yw bod Caerdydd wedi rhoi gwybodaeth am ddarparwyr i ddarparwr arall drwy'r broses, gan fod CAADA yn ddarparwr gwasanaethau. Adolygiad o drefniadau cymorth fel y bo angen, a arweinir gan BDO – dylid rhannu cwmpas yr adolygiad hwn gyda'r Pwyllgor a darparwyr. Ni roddwyd unrhyw wybodaeth heblaw am yr amserlen. Gwasanaethau Llety Pobl Ifanc, a arweinir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Beth yw cwmpas a phroses y gwaith hwn nad yw'n adolygiad? <p>Sut mae'r tri pheth yn cydblethu a sut cânt eu defnyddio i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniadau o ran sut y caiff toriadau ariannol eu rheoli. Ymddengys nad oes unrhyw ddull meddwl cydgysylltiedig a strategol o ran pob un o'r tri.</p> <p>Mae'r Fforwm Darparwyr Rhanbarthol wedi gofyn i wybodaeth gael ei darparu nawr, neu maent am i'r wybodaeth gael ei chyfeirio i Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB) er mwyn iddynt ei hystyried. Mae darparwyr yn poeni am y broses o wneud penderfyniadau.</p> <p>JT – oni rannwyd cwmpas BDO?</p> <p>FB - Na, ymddengys fod y Pwyllgor yn cael ei hepgor, ac mae hyn yn peri rhwystredigaeth i'r cynrychiolwyr a'r fforwm darparwyr, sef pam y gofynnwyd i ni ei godi fel mater sy'n peri pryder.</p> <p>MS – Mae'r Fforymau Landlordiaid yn rhannu'r un pryderon. Lle mae popeth yn cydblethu? Sut mae adolygiadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a BDO yn gweithio? Fel landlordiaid, gwyddom fod toriadau ariannol ar y gweill, mae angen i ni fod yn rhan o'r broses, ond mae angen i ni wybod sut.</p> <p>JT – Gall ddod â gwybodaeth am y broses a sut y mae popeth yn cydblethu i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.</p> <p>FB – Prin iawn yw'r wybodaeth a ddaw o Gaerdydd, ac mae hynny'n peri ofn a dicter ymhlith darparwyr. Mae angen darparu'r wybodaeth hon nawr, ac mae angen iddo gynnwys y bwriad strategol.</p> <p>JT – Mae'r prosesau cyfredol yn ddarniog yn hytrach na chydgyssylltiedig. Mae angen cyfleu'r anghenion o ran bwriad strategol.</p> <p>BB – A ellir dod ag ef i'r cyfarfod nesaf?</p> <p>JT – bydd yn y cyfarfod nesaf a bydd Caerdydd yn cyfarfod â'r darparwyr yn y cyfamser.</p> <p>BB – SC i'w ychwanegu at agenda cyfarfod nesaf y pwyllgor.</p>	

<p>FB – mae angen gwirioneddol i oresgyn y problemau cyfathrebu. JT – Mae Byw'n Annibynnol yn destun adolygiad hefyd. Mae'r maes hwnnw'n gorgyffwrdd â Chefnogi Pobl. Mae'n cydnabod yr hyn a ddywedwyd a'r angen am well cyfathrebu a gwybodaeth ar y cyfeiriad strategol a bennwyd.</p> <p>Cam Gweithredu Caerdydd i drefnu cyfarfod gyda'r Fforwm Defnyddwyr i rannu cwmpas a phrosesau'r holl feysydd sy'n cael eu hystyried. Mae'r cyfeiriad strategol a'r meysydd sy'n cael eu hystyried wedi'u cydgysylltu er mwyn eu rhannu.</p> <p>Caiff y cyfeiriad strategol, cwmpasau a phrosesau eu rhannu â'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.</p> <p>Eitem ar gyfeiriad strategol Caerdydd i'w hychwanegu at agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor.</p>	<p>JT / NS</p> <p>JT / NS</p> <p>SC</p>
<p>6. Adroddiad ar wasanaethau Pobl Hŷn – ymatebion i holiadur y Ffrwd Gwaith Ansawdd.</p> <p>Dosbarthwyd yr adroddiad cyn y cyfarfod, ac fe'i gyflwynwyd gan SC.</p> <p>FB – Buom yn trafod y mater hwn ers 10 mlynedd. Codwyd materion ynghylch tenantiaethau bryd hynny. Mae angen rhagor o arweiniad arnom ar sut i weithredu hwn.</p> <p>CrM – mae hwn yn ymarfer defnyddiol sy'n cynhyrchu gwybodaeth ddefnyddiol. Bydd angen gwneud rhywbeth ar lefel genedlaethol, ond mae angen codi materion ar lefel leol hefyd.</p> <p>FB – Dylai meini prawf ariannu gwasanaethau Cefnogi Pobl gwmpasu hwn.</p> <p>DL – Ni fydd unrhyw ganllawiau ychwanegol ar wasanaethau pobl hŷn. Byddai'n ddefnyddiol cael gwybod am y materion drwy grŵp pobl hŷn ac ystyried yr adolygiadau gwasanaeth a gyflawnwyd.</p> <p>FB – Dylai fod canllawiau strategol. Mae angen cadarnhau na ddylai gwasanaeth gael arian Cefnogi Pobl os nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd.</p> <p>MS – Ar lefel genedlaethol, caiff hyn ei ystyried yn aml wrth drosglwyddo gwasanaethau o'r Awdurdodau Lleol i ddarparwyr allanol.</p> <p>PT – Ceir mater sy'n ymwneud â thenantiaid gwarchoddedig sydd eisoes yn derbyn y gwasanaeth fel rhan o'u cytundeb tenantiaeth ddiogel, ond nad oes rhaid iddynt dalu amdano gan eu bod yn denantiaid ers cyn 2003 pan gronnwyd taliadau am wardeiniaid a larymau ar draws yr holl stoc dai.</p> <p>CrM – po fwyaf o wybodaeth sydd ar gael am faterion, gorau oll fydd y ddealltwriaeth y gellir ei datblygu, a gellir mapio lle mae angen iddo fynd yn glir</p> <p>MS – Mae'r ffrwd waith cyllid strategol yn ystyried dulliau tecach o godi tâl.</p> <p>BB – Argymell y dylai grŵp gorchwyl a gorffen ystyried gwasanaethau pobl hŷn.</p> <p>Gwirfoddolodd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • HJ – fel darparwr a landlord ar gyfer Cefnogi Pobl. • SC – i hwyluso'r broses • SHG – i ddarparu'r cysylltiadau â grŵp y Bwrdd Iechyd Pobl Hŷn • NS a PT – fel arweinwyr Cefnogi Pobl, i roi gwybodaeth am y gwasanaethau cyfredol i'r grŵp. <p>DL – Awgrymodd y dylai SC gysylltu â Chydlynnydd Datblygu Rhanbarthol Cwm Taf i gael gwybod sut maent yn ystyried y mater.</p>	

<p>BB – A oes amserlen? CM – awgrymodd y dylai'r grŵp bennu amserlen y grŵp, a chyflwyno adroddiad ar hwn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. FB – Bydd y grŵp yn ymdrin â'r holl argymhellion eraill, felly nid oes angen cytuno arnynt.</p> <p>Roedd pawb o blaid sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pobl Hŷn a chyflwyno amserlen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.</p> <p>Camau Gweithredu SHG i ddarparu'r cysylltiadau â grŵp y Bwrdd Iechyd Pobl Hŷn i SC.</p> <p>Sefydlu'r grŵp gorchwyl a gorffen Pobl Hŷn a chynnal ei gyfarfod cyntaf cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.</p> <p>Cyflwynir amserlen y grŵp gorchwyl a gorffen gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor.</p>	<p>SHG</p> <p>SC / grŵp</p> <p>Grŵp gorchwyl a gorffen</p>
<p>7. Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bro Morgannwg a Chaerdydd: Pecyn Sefydlu</p> <p>Dosbarthwyd fersiwn drafft o'r pecyn sefydlu cyn y cyfarfod. Mae'r pecyn yn seiliedig ar Becyn Sefydlu Gwent.</p> <p>FB – mae un peth sydd heb ei gynnwys, sef nid oes unrhyw sôn am fentora a gweithio mewn partneriaeth. Dylai'r mentor ddod o un o ardaloedd gwahanol y Pwyllgor. CM – A ellid ychwanegu gwerthusiad 4+1 ar y diwedd? BB – dylid adolygu'r pecyn sefydlu'n flynyddol.</p> <p>Cymeradwywyd y pecyn sefydlu yn unfrydol gyda'r ddau ychwanegiad. Caiff y pecyn sefydlu ei adolygu'n flynyddol.</p> <p>Camau Gweithredu FB a SC i gydgyssylltu ac ychwanegu paragraff am fentoriaid a phartneriaid ar gyfer aelodau newydd y Pwyllgor.</p> <p>CM i ddarparu'r gwerthusiad 4-1 er mwyn gallu ei ychwanegu at ddiwedd y pecyn sefydlu.</p> <p>Caiff y ddogfen derfynol ei dosbarthu i'r holl Aelodau er gwybodaeth, a dylid profi'r pecyn sefydlu gyda'r holl Aelodau a Dirprwyon newydd, gan gynnwys PR a'r Cynghorydd Elsmore.</p> <p>Caiff y pecyn sefydlu ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor.</p>	<p>FB / SC</p> <p>CM</p> <p>SC</p> <p>Pawb</p>
<p>8. Cydweithredu, Arfer Da ac Arloesi</p>	

<p>Dosbarthwyd papur cyn y cyfarfod. Roedd y dudalen gyntaf yn canolbwyntio ar sicrhau cysondeb drwy gydweithredu yn y gogledd.</p> <p>FB – Mae'r hyn a wneir yn y gogledd o ran adfachu yn arfer da, ac mae'n sicrhau cysondeb i ddarparwyr.</p> <p>HJ – Sonnir am ddulliau adfachu safonol yn aml, ond yn aml nid ydynt yn safonol hyd yn oed o fewn Awdurdod Lleol.</p> <p>FB – Byddai'n ddefnyddiol petai Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn gallu cytuno ar ddull adfachu safonol.</p> <p>BB – Byddai'n dda petai'r Pwyllgor yn gallu gwneud hynny, gan y byddai hynny'n dystiolaeth o gydweithio.</p> <p>NS – Mae Caerdydd wedi gwneud rhywfaint o adfachu yn y gorffennol.</p> <p>FB – nid adfachu ydoedd gan fod y darparwr wedi gwneud hynny'n wirfoddol.</p> <p>CrM – Os yw hynny'n digwydd eisoes, beth am ffurfioli'r trefniadau ar lefel ranbarthol?</p> <p>Cymeradwywyd yn unfrydol adfachiad rhanbarthol o 10% sy'n seiliedig ar enghraifft y gogledd. Cytunwyd hefyd y byddai'n syniad da i bob rhanbarth sicrhau cytundeb tebyg er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.</p> <p>Roedd ail dudalen y papur a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod yn sôn am sut y mae Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol eraill yn defnyddio gweithdai.</p> <p>BB – byddai cynnal gweithdy blynyddol yn syniad da iawn.</p> <p>Cytunwyd yn unfrydol y byddai'r Pwyllgor yn cynnal gweithdy blynyddol.</p> <p>FB – Mae rhai o'r Pwyllgorau Rhanbarthol eraill yn cynnal diwrnodau datblygu rhanbarthol, lle mae darparwyr yn rhannu'r hyn a wnânt ac yn rhannu syniadau. A fyddai'n bosibl i ni gynnwys rhywbeth tebyg?</p> <p>BB – Gellid cynnal diwrnod datblygu rhanbarthol sy'n seiliedig ar oblygiadau'r toriadau ariannol, ac yn gyfle i rannu syniadau.</p> <p>FB – Byddai hynny'n galluogi darparwyr a landlordiaid i rannu ffyrdd gwahanol o wneud pethau.</p> <p>DL – Byddai o fudd i bawb ac yn gyfle gwirioneddol i ystyried yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.</p> <p>Cytunwyd yn unfrydol i gynnal diwrnod datblygu rhanbarthol.</p> <p>Camau Gweithredu</p> <p>Llunio datganiad Adfachu Caerdydd a'r Fro sy'n seiliedig ar enghraifft y gogledd.</p> <p>Caiff y Datganiad Adfachu ei drafod yn y Rhwydwaith Cydlynwyr Datblygu Rhanbarthol, gan fod y pwyllgor o'r farn y byddai'n dda petai pob rhanbarth yn gallu cael datganiadau a gymeradwywyd.</p> <p>Caiff gweithdy'r Pwyllgor ei gynllunio a'i drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.</p> <p>Cynllunio a threfnu diwrnod datblygu rhanbarthol.</p>	<p>SC / PT / NS</p> <p>SC / DL</p> <p>BB / FB / SC</p> <p>Pawb</p>
<p>9. Unrhyw Fusnes Arall</p>	

9a. Adroddiad ar hyfforddiant ar sicrhau'r Incwm mwyaf posibl, cyllidebu a dyledion.

Daeth y rhaglen hyfforddiant di-dâl i Weithwyr Cymorth i ben ar 31 Mawrth 2014. Lluniwyd adroddiad ar yr hyfforddiant ei hun. Gofynnwyd i Gymorth ystyried y posibilrwydd y gallai'r darparwyr ychwanegu'r hyfforddiant at y rhaglen hyfforddiant.

Mae Sally Milton o STTEPSS wedi gwneud rhywfaint o waith ar ran yr is-grŵp ar sut y gellid ychwanegu gwybodaeth ariannol i'r gwaith papur atgyweirio, asesu ac adolygu.

FB – Roedd yr is-grŵp o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i'w gynnwys yn yr holl waith papur, er mwyn creu cyfleoedd.

MS – Gall fod yn fwy anodd gyda phobl ifanc sy'n dod i mewn heb ddyled ond sy'n gadael mewn dyled oherwydd rhent ac ati.

Cytunwyd yn unfrydol y dylid hybu'r enghreifftiau a roddwyd fel enghreifftiau o arfer gorau a'u rhannu â'r holl ddarparwyr.

Camau Gweithredu

Dosbarthu'r enghreifftiau o arfer gorau drwy CHC a Cymorth i'r holl ddarparwyr a landlordiaid yn y rhanbarth sy'n derbyn cyllid cefnogi pobl.

SC

9b. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Dosbarthwyd y neges e-bost a gafwyd gan Lywodraeth Cymru cyn y cyfarfod, ond ar ôl yr holl bapurau eraill. Darparwyd copïau caled o'r dogfennau.

MS – Nid oedd CHC o blaid y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, nid dyna oedd y dull gweithredu cywir yn eu barn hwy.

FB – Dyna'r dull gweithredu gorau sydd ar gael i ni ar hyn o bryd. Gwell rhywbeth na dim. Bydd rhaid i bawb gydymffurfio â'r Memorandwm ar ôl ei lofnodi. Amser a ddengys pa mor gadarn ydyw.

BB – Eglurodd y Gweinidog mewn cyfarfod rhanbarthol y caiff hwn ei gyhoeddi'n fuan. Mae adolygiad o bob Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn mynd rhagddo, gyda rhai'n gweithredu'n dda a rhai ddim cystal.

Eglurwyd na ellir gohirio'r adolygiad hwn ac roedd yn hen bryd ei gynnal.

FB – mae angen i bawb gytuno i rywbeth er mwyn sicrhau atebolrwydd.

Cynigiodd FB y dylid llunio ymateb gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.

BB – rhaid newid y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, felly mae'n bwysig bod y Pwyllgor yn ymateb. Gall pawb ymateb yn unigol hefyd.

CrM – Mae barn y Pwyllgor yn bwysig hefyd.

Cytunwyd yn unfrydol i gyflwyno ymateb gan Bwyllgor Caerdydd a'r Fro.

Camau Gweithredu

FB i ddrafftio'r ymateb gan Bwyllgor Caerdydd a'r Fro.

Caiff yr ymateb drafft ei ddsbarthu er mwyn rhoi cyfle i aelodau wneud sylwadau a chynnig newidiadau.

FB

Rhaid cyflwyno ymateb Pwyllgor Caerdydd a'r Fro erbyn 13 Mehefin 2014.

SC

	FB / SC
<p>10. Eitemau agenda cyfarfod Gorffennaf 2014</p> <p>Cytunwyd ar yr holl eitemau a ddangosir ar yr agenda. Mae'r cwmpas, y broses, y cyfeiriad strategol a sut y mae'r holl adolygiadau ac ati yng Nghaerdydd yn cydgysylltu wedi'u cymeradwyo eisoes i'w hychwanegu at agenda cyfarfod Gorffennaf.</p> <p>DL – Angen ychwanegu adborth o'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol a'r Adolygiad Blynyddol. Cytunwyd</p> <p>BB – A fydd y Cynghorydd Elsmore yn gallu dod i'r cyfarfod nesaf? JT – Bydd. Bydd naill ai'r Cynghorydd Elsmore neu ei dirprwy penodedig yn dod i'r cyfarfod.</p> <p>Camau Gweithredu Agenda'r cyfarfod nesaf i'w phennu a'i dosbarthu.</p>	BB / FB / SC

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

2pm, Dydd Mawrth, 22 Gorffennaf 2014

Ystafell Armstrong, Tŷ Wilcox, Caerdydd